

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 21 Mai 2014

Preseanol: Dr D Assinder, Miss S Barnes, Mr R Dart, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Mr A Jones, Mr W Jones, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr D Owen, Ms E Riches, Mr D Roberts, Mr S Roberts, Prof P Spencer, Prof C Tully, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheu riadau: Ms L Fowlie, Mr J Patton, Mr E Roberts, Dr H Roberts.

434. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2013 wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

435. MATERION YN CODI

- a) Nodyn Arbennig:
Cynhaliwyd Cwest y Crwner yn Ebrill 2014 i'r farwolaeth drychinebus a marwolaeth drwy anffawd oedd y dyfarniad. Nodwyd bod ymchwiliad yr HSE i'r ddamwain yn parhau.
- b) Cofnod 427 (a) Gofynion Diogelwch a Chofrestru Pathogenau a Thocsinau:
Atgoffawyd Colegau bod rhaid iddynt roi gwybod i'r Uned Gydymffurfio erbyn 1 Awst 2014 am yr holl ddeunyddiau rhestredig yn statudol sydd ganddynt neu y maent yn bwriadu eu defnyddio.
- c) Cofnod 427 (c) Adroddiad ar yr Archwiliad o Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau:
Mae'r Coleg wedi rhoi sicrwydd bod y trefniadau angenrheidiol wedi'u gwneud i sicrhau iechyd a diogelwch plant sy'n dod i weithgareddau yno.
- d) Cofnod 427 (f) Achosion Sifil (yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch):
Nid yw'r Brifysgol mwyach yn ddiffynnydd mewn achos sifil am iawndal a oedd heb ei ddatrys.
- e) Cofnod 428 (b) Adroddiad i Ymchwiliad yr HSE i Sefydliad Partner:
Mae adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd i sicrhau y cyflawnir camau a nodwyd yn dilyn ymchwiliad yr HSE i'r ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli risgiau posibl i staff sydd wedi eu lleoli gyda sefydliadau eraill.
- f) Cofnod 429 (i) Clybiau a Chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr:
Llongyfarchwyd Undeb y Myfyrwyr ar ddod i'r 6ed safle (allan o dros 150 o sefydliadau AU) yn y "*What Uni?*" *Student Choice Awards* i'r Clybiau a'r Cymdeithasau gorau.
- g) Cofnod 429 (vi) Cyfleusterau Storio Undeb y Myfyrwyr:
Dywedwyd bod gwaith yn cael ei wneud i ganfod atebion i'r trafferthion a achosir gan ddiffyg lle storio addas i glybiau a chymdeithasau.
- h) Cofnod 432 (viii) Polisi ar Arfau Ffug:
Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Heddlu ac eraill, er mwyn bwrw ymlaen â'r polisi hwn.

436. IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH YMBELYDREDD

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 21 Ionawr 2014 a nodwyd yr eitemau allweddol isod:

- i. *Stociau Nas Defnyddiwyd*: Gwnaed cynnydd helaeth i leihau maint yr hen stoc ymbelydredd a ddelir gan y Brifysgol, gyda stociau'n cael eu storio ar hyn o bryd mewn cyfleusterau priodol ar ddau safle. Nodwyd y bydd angen cael gwared yn ffurfiol ar stociau anhydawdd gan contractor trwyddedig os collir cyfleusterau storio o ganlyniad i'r gwaith adnewyddu disgwylidig i'r Adeilad Coffa.
- ii. *Dogfennau Rheoli Ymbelydredd*: Datblygwyd *Radiation Open Source Stock Permit Mapping* a *Radiation Open Source Waste Permit Mapping*. Mae'r rhain yn nodi sut mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion ei stoc ymbelydredd a thrwyddedau gwastraff.
- iii. *Trefniadau Rheoli Ymbelydredd*: Sefydlwyd dulliau gweithredu i roi sylw i rai pryderon y tynnwyd sylw atynt yn ystod adolygiad mewnol o drefniadau rheoli ffynonellau ymbelydredd agored ac wedi'u selio. Gwneir gwiriadau i sicrhau y cedwir at y dulliau gweithredu hyn.
- iv. *Archwiliad Adnoddau Naturiol Cymru (ANC)*: Yn Rhagfyr 2013 fe wnaeth ANC adolygu cydymffurfiaeth y Brifysgol ag awdurdodiadau a thrwyddedau penodol a roddwyd dan y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol 2010, a'i chydymffurfiaeth sylfaenol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999. Nid oedd unrhyw bwyntiau i weithredu arnynt yn deillio o'r ymweliad.

437. IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH CEMEGOL A BIOLEGOL

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 21 Ionawr 2014 a nodwyd yr eitemau allweddol isod:

- i. *Nadroedd Gwenwynig*: Mae nifer y nadroedd gwenwynig a gedwir yn y Brifysgol wedi cynyddu oherwydd gofynion ymchwil sy'n datblygu a helaethu. Mae trefniadau wedi'u gwneud i ddelio â brathiad gan neidr pe bai hynny'n digwydd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant Epi Pen i staff allweddol i ddelio ag effeithiau sioc anaffylactig a threfniadau gydag Ysgol Meddygaeth Drofannol Lerpwl i gael serwm addas i wrthweithio'r gwenwyn.
- ii. *Damweiniau a Dignyddiadau*: Mae gwaith yn parhau i roi sylw i bryderon a godwyd wedi i fyfyrwr gredu iddynt ddod i gysylltiad â chemegau wrth ddefnyddio eitem offer a oedd mewn Ysgol academiaidd arall. Fe wnaeth technegydd lleol ddangos i'r myfyrwr sut i ddefnyddio'r offer ond nid oedd yn deall yn iawn yr arbrawf a'r prosesau dan sylw. Yr Ysgol 'riant' sy'n gyfrifol am risg er bod y gweithgaredd yn cael ei wneud mewn Ysgol arall ac mae'r Is-bwyllgor yn edrych ar dynhau rheolaethau dros weithgareddau o'r fath. Gall cynlluniau yn y dyfodol gynnwys sefydlu pwyntiau 'offer' canolog i'w defnyddio gan holl Ysgolion y gwyddorau.
- iii. *Organebau a Addaswyd yn Enetig (GMO)*: Fe wnaeth archwiliad yr HSE i asesu trefniadau rheoli gwaith GMO arwain at adroddiad da, gyda phedwar o fân argymhellion yn cael eu gwneud. Mae'r holl gamau gweithredu wedi cael sylw.
- iv. *Archwiliad/ Adolygiad Bioberyglon 2013*: Ddiwedd 2013 cynhaliwyd adolygiad dilynol o'r camau gweithredu a nodwyd yn yr Archwiliad o Beryglon Biolegol yn 2009. Dangosodd yr adolygiad bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi cael eu cyflawni gyda'r mwyafrif o feysydd yn cael eu rheoli'n dda. Dim ond ychydig o fân bwyntiau a nodwyd.

438. GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod dair gwaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor IaD. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Canllaw i Aelodau'r Cyngor*: Ystyriwyd 'Canllaw i Aelodau'r Cyngor', sy'n egluro'n gryno sut y rheolir iechyd a diogelwch yn y Brifysgol. Bydd y Canllaw'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn fuan.

- ii. *Dod i Gysylltiad â Risg:* Fe wnaeth adolygiad o'r 'Rheolaeth Risgiau - Golwg Gyffredinol', sy'n ystyried prif faterion o'r Aseiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, nodi bod angen gwella archwilio a chadw cofnodion.
- iii. *Cadeirydd y Grŵp Tasg:* Mae'r Dirprwy Gofrestrydd wedi'i benodi'n Gadeirydd yn dilyn ymddeoliad y Cofrestrydd. Bydd y Grŵp Tasg yn parhau i adroddi i'r Is-ganghellor a'r Pwyllgor Gweithredu.

439. POLISI AR DDEIFIO

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor y Safon Bolisi ar Ddeifio yn y Gwaith, sy'n fersiwn ddiwygiedig o'r OHSU P11, Nodyn Polisi ar Ddeifio yn y Gwaith. **Cytunwyd** i gymeradwyo'r 'Safon Bolisi ar Ddeifio yn y Gwaith' diwygiedig, yn amodol ar wneud mân newidiadau.

440. ADRODDIADAU IECHYD A DIOGELWCH BLYNYDDOL (2013)

Rhodddwyd crynodeb o Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2013. Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- i. ***Damweiniau a Digwyddiadau:*** Rhodddwyd gwybod am 61 o ddamweiniau lle cafwyd anafiadau; 40 gan staff a 21 gan fyfyrwyr. Mae hyn yn is na'r 76 a nodwyd yn 2012. Prif achosion damweiniau o hyd yw trafod llwythi a baglu, llithro a syrthio.
- ii. ***Absenoldeb Salwch:*** Cofnodwyd 4.3 diwrnod absenoldeb salwch y pen o ran aelodau staff CAL yn 2013. Mae cyflyrau cyhyrsgerbydol a seicolegol yn parhau'n ddau brif achos absenoldebau tymor hir a ardystiwyd yn feddygol.
- iii. ***Archwiliad Iechyd:*** Cafodd dros 180 o staff (gweithwyr llaw, cemegwyr ymchwil a staff technegol, gweithwyr ar shiffitiau, rhai sy'n trin a thrafod bwyd, gyrwyr ar gontract, gweithwyr tiroedd a staff treialon Biogyfansoddion) archwiliad iechyd blynyddol i gadarnhau nad yw eu gwaith yn achosi niwed iddynt.
- iv. ***Larymau Tân yn Canu:*** Gwelwyd gostyngiad sylweddol i 129 mewn achosion o larymau tân yn canu, gyda'r niferoedd wedi'u rhannu'n weddol gyfartal ar draws y ddwy ystâd; Adeiladau Academaidd a Gweinyddol (59) a Neuaddau Preswyl (70).
- v. ***Tanau:*** Cafwyd un achos o dân bychan a achoswyd o ganlyniad i goginio mewn neuadd breswyl.
- vi. ***Camau Gorfodi:*** Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2013.
- vii. ***Hawliadau Sifil (Cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch):*** Nid oedd unrhyw Hawliadau Sifil neu Atebolrwydd Cyhoeddus newydd yn 2013.
- viii. ***Hyfforddiant Staff:*** Yn 2013 mynychodd 583 o staff gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd gan neu drwy'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch. Yn ogystal, darparodd yr Adran Ystadau nifer o gyrsiau hyfforddi i 180 o gontractwyr i sicrhau y cedwir at ddulliau gweithio da tra byddant yn gweithio yn y Brifysgol; fe wnaeth Adnoddau Dynol hefyd ddarparu nifer o sesiynau i hybu lles staff.
- ix. ***NWWHSG:*** Ym Medi cynhaliodd y Grŵp ei gynhadledd iechyd a diogelwch a gynhelir bob dwy flynedd, 'Newid er Gwell'. Daeth dros 100 o gynrychiolwyr o blith cyflogwyr lleol a chenedlaethol iddi.
- x. ***Storio Beics / Benthycia Beics:*** O ganlyniad i'r cais llwyddiannus am grant TAITH yn 2012, gallodd y Brifysgol gynyddu ei chyfleusterau storio beics >40% a phrynu nifer o feics hybrid i ddynion a merched i'w rhoi ar fenthyg am ddim. O ganlyniad fe wnaeth nifer y benthyciadau beics i staff bron ddyblu yn 2013.
- xi. ***Teithio'r Byd:*** O 1 Mawrth 2013 cafodd staff a myfyrwyr eu hannog i gymryd rhan yn yr Her Teithio'r Byd a chofnodi eu gweithgaredd cerdded, nofio neu feicio. Parhaodd yr ymgyrch am 90 diwrnod ac fe wnaeth 400 o staff a 192 o fyfyrwyr gymryd rhan.

Drwodd a thro fe wnaeth y staff gwblhau 67,000 o filltiroedd (2.69 gwaith rownd y byd).

xii. **Eich Cefnogi Chi:** Bwriad yr ymgyrch oedd atgoffa staff am y gwasanaeth, y gefnogaeth a'r wybodaeth a ddarperir gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch a gofyn i staff, drwy lenwi arolwg, am syniadau ar gyfer ymgyrchoedd i hybu iechyd a lles yn y dyfodol.

xiii. **Diwrnod Dim Smygu:** Fe'i cynhaliwyd ar 13 Mawrth i gyd-fynd â Diwrnod Cenedlaethol Dim Smygu. Roedd yn cynnwys ymgyrch boster gan ddefnyddio'r thema genedlaethol 'Swap Fags for Swags', gyda'r nod o ddangos i bobl faint o arian y gallent ei arbed drwy roi'r gorau iddi.

xiv. **Tŷ Gobaith:** Yn Rhagfyr cyflwynodd y Cofrestrydd sic am £12,897 i Dŷ Gobaith. Codwyd yr arian drwy wahanol ddigwyddiadau yn cynnwys her 'Zip-Wire', a drefnwyd gan yr Ysgol Cemeg; pryd bwyd a drefnwyd gan 'Lead Cymru' i fusnesau lleol; dringfeydd i fyny Kilimanjaro a'r Wyddfa, yn ogystal â'r elw o loteri staff y Brifysgol sy'n bodoli'n unig i godi arian i Dŷ Gobaith.

441. UNRHYW FATER ARALL

- i. O 5 Gorffennaf gelwir Maes Glas yn Canolfan Brailsford.
- ii. Mynegwyd pryder ynghylch trefniadau diogelwch ar draws y Brifysgol yn dilyn achos o dorri i mewn yn yr Ysgol Peirianeg Electronig.